

Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Rhestr Ddetholedig yng Nghymru

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei hasesu?

Pwrpas y newidiadau arfaethedig yw diwygio Atodlen 2 ("Cyffuriau a meddyginiaethau i'w harchebu mewn amgylchiadau penodedig yn unig") i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) Rheoliadau 2004, y cyfeirir atynt fel arfer fel y Cynllun Rhestr Ddetholedig (SLS). Byddai'r diwygiadau arfaethedig yn dileu nifer o gyfyngiadau rhagnodi statudol a gofynion gweinyddol nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn glinigol briodol nac yn gymesur, wrth gadw dibyniaeth ar ganllawiau clinigol presennol, trefniadau llywodraethu rhagnodi a mecanweithiau stiwardiaeth meddyginiaethau. Amcan y polisi yw sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio sy'n llywodraethu rhagnodi'r GIG yng Nghymru yn parhau i fod yn cyd-fynd â'r arfer glinigol gyfredol, ei fod yn adlewyrchu tystiolaeth gyfoes a chyd-destunau costau, ac yn cefnogi mynediad amserol at driniaeth glinigol briodol.

Nid yw'r ymgynghoriad yn cynnwys y cyfyngiadau sy'n ymwneud ag analogau hormonau rhyddhau gonadotropin (GnRH) a ragnodir i blant a phobl ifanc sydd ag anghyfathiant rhywedd neu ddysfforia rhywedd. Cyflwynwyd y cyfyngiadau hynny yn 2024 yn dilyn cyhoeddi'r adolygiad annibynnol o wasanaethau hunaniaeth rhywedd i blant a phobl ifanc (Adolygiad Cass) a newidiadau deddfwriaethol dilynol yng Nghymru. O ystyried yr amser cymharol gyfyngedig sydd wedi mynd heibio ers i'r newidiadau hynny gael eu gwneud, nid oedd swyddogion o'r farn ei bod yn briodol nac yn gymesur ailedrych ar y cyfyngiadau hynny fel rhan o'r adolygiad cyfredol o'r Cynllun Rhestr Ddetholedig. Mae'r cyfyngiadau yn parhau i fod mewn grym ac felly maent y tu allan i gwmpas y cynigion presennol, sy'n canolbwyntio ar grŵp gwahanol o feddyginiaethau a chyfyngiadau rhagnodi nad ydynt wedi bod yn destun adolygiad diweddar.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- Pa ymchwil a data sydd eisoes yn bodoli ynghylch plant a phobl ifanc sydd ar gael i oleuo eich polisi penodol? Gallai eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau gyda thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses o asesu'r effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu'r amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.

Mae'r dystiolaeth sylfaenol a ddefnyddir i lywio'r polisi hwn yn cynnwys yr adolygiad tystiolaeth a gynhaliwyd gan Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC), canllawiau clinigol cenedlaethol perthnasol, polisi rhagnodi, data rhagnodi, ac ystyried y cyfyngiadau statudol cyfredol a gynhwysir yn y Cynllun Rhestr Ddetholedig (SLS).

Mae'r cynigion yn ymwneud yn bennaf â llywodraethu rhagnodi, yn hytrach na gwasanaethau sy'n targedu plant a phobl ifanc yn benodol. Serch hynny, rhoddwyd ystyriaeth i feysydd lle gellid effeithio ar blant a phobl ifanc. Yn benodol:

- Defnyddir Clobazam wrth drin rhai mathau o epilepsi mewn plant a phobl ifanc.
- Gellir rhagnodi oseltamivir a zanamivir i blant a phobl ifanc mewn grwpiau mewn perygl clinigol yn unol â chanllawiau clinigol cenedlaethol.

Felly, ystyriwyd tystiolaeth sy'n ymwneud â rheoli'r fflw, llwybrau rhagnodi a mynediad amserol at driniaeth.

Nid yw'r ymgynghoriad yn cynnwys y cyfyngiadau sy'n ymwneud ag analogau hormonau rhyddhau gonadotropin (GnRH) a ragnodir i blant a phobl ifanc sydd ag anghyfathiant rhywedd neu ddysfforia rhywedd. Mae'r cyfyngiadau hyn yn parhau i fod mewn grym ac maent y tu allan i gwmpas y cynigion presennol.

- Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil yma, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi'n effeithio ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisiâu sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.

Yn gyffredinol, disgwylir i'r effeithiau ar blant a phobl ifanc fod yn gyfyngedig ac yn gadarnhaol neu'n niwtral yn bennaf.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwelliannau arfaethedig yn annhebygol o effeithio ar blant a phobl ifanc yn uniongyrchol. Mae cael gwared ar gynhyrchion sydd wedi darfod a'r newidiadau arfaethedig sy'n ymwneud â meddyginiaethau a ddefnyddir wrth drin anhawster codiad yn ymwneud yn bennaf â phoblogaethau oedolion ac ni ddisgwylir iddynt gael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc.

Ar gyfer plant a phobl ifanc ag epilepsi y rhagnodir clobazam ar eu cyfer, gall dileu'r cyfyngiad SLS gael effaith gadarnhaol fach trwy leihau'r potensial ar gyfer rhwystrau gweinyddol neu oedi wrth rhagnodi. Nid yw'r cynnig yn newid cymhwysedd clinigol, safonau gofal, canllawiau rhagnodi na mynediad at driniaeth.

Ar gyfer plant a phobl ifanc o fewn grwpiau clinigol mewn perygl ar gyfer y fflw, gall dileu'r hysbysiad gweinidogol a gofynion cadarnhau feirolegol lleol sy'n gysylltiedig ag oseltamivir a zanamivir gefnogi mynediad mwy amserol i driniaeth lle bo hynny'n briodol yn glinigol. Nid yw'r cynnig yn newid meini prawf cymhwysedd na throthwyon gwneud penderfyniadau clinigol.

Nid oes unrhyw effeithiau andwyol penodol wedi'u nodi. Nid yw'r cynigion yn dileu mynediad at driniaeth, yn lleihau'r ddarpariaeth gwasanaethau, yn cyflwyno cyfyngiadau newydd sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, nac yn newid trefniadau diogelu, rhagnodi neu lywodraethu clinigol sefydledig. Bydd canllawiau clinigol presennol a mecanweithiau llywodraethu meddyginiaethau yn parhau i fod yn berthnasol.

Ar y sail hon, ystyrir bod y cynigion yn annhebygol o effeithio'n andwyol ar hawliau plant a gallant gael effaith gadarnhaol fach mewn perthynas ag Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (sef yr hawl i'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd) trwy leihau rhwystrau gweinyddol diangen i driniaeth.

- Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc ydych chi wedi'i ddefnyddio i oleuo eich polisi? Os nad ydych chi wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, eglurwch pam os gwelwch yn dda.

Nid oes unrhyw ymgysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc wedi'i wneud yn ystod y gwaith o datblygu'r cynigion hyn.

Ystyriwyd bod y dull hwn yn gymesur oherwydd bod y cynigion yn ymwneud â diwygiadau i fframwaith rhagnodi statudol yn hytrach na gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Nid oes gan y rhan fwyaf o'r gwelliannau arfaethedig unrhyw berthnasedd uniongyrchol i blant a phobl ifanc neu nid ydynt yn ymwneud â threfniadau rhagnodi rheoleiddiol a gweinyddol yn hytrach na newidiadau i lwybrau triniaeth glinigol.

Fodd bynnag, bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn rhoi cyfle i amrywiaeth eang o randdeiliaid wneud sylwadau ar y cynigion a nodi unrhyw effeithiau ar blant a phobl ifanc na allai fod wedi'u nodi wrth ddatblygu'r polisi. Mae'r rhain yn cynnwys, gan gynnwys grwpiau cleifion, sefydliadau cynrychioliadol, clinigwyr, gofalwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Mae swyddogion o'r farn nad yw cyfranogiad uniongyrchol gan blant a phobl ifanc yn angenrheidiol nac yn gymesur mewn perthynas â'r cynigion hyn o ystyried natur gyfyngedig yr effeithiau a ragwelir, ond bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu i ganfod a oes unrhyw ystyriaethau ychwanegol sy'n benodol i blant yn dod i'r amlwg cyn gwneud penderfyniadau terfynol.

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu, pa effaith y mae eich polisi yn debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd, disgwylir i'r diwygiadau arfaethedig gael effaith gyfyngedig a chadarnhaol neu niwtral ar blant a phobl ifanc. Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion naill ai'n ymwneud â chynhyrchion sydd wedi darfod neu rai sydd wedi'u dirwyn i ben neu feddyginiaethau a ddefnyddir yn bennaf mewn poblogaethau oedolion, ac felly maent yn annhebygol o gael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc.

Gall nifer fach o gynigion fod â pherthnasedd anuniongyrchol. Defnyddir Clobazam wrth drin rhai plant a phobl ifanc ag epilepsi a gall dileu cyfyngiad y Cynllun Rhestr Ddetholedig leihau'r posibilrwydd o'r oedi gweinyddol sy'n gysylltiedig â rhagnodi, heb newid cymhwysedd clinigol, safonau gofal neu fynediad at driniaeth. Yn yr un modd, gall dileu'r hysbysiad gweinidogol a gofynion cadarnhau feirolegol lleol ar gyfer oseltamivir a zanamivir gefnogi mynediad mwy amserol at driniaeth i blant a phobl ifanc mewn grwpiau mewn perygl clinigol, wrth gadw meini prawf cymhwysedd clinigol presennol a chanllawiau rhagnodi.

Nid oes unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar blant a phobl ifanc wedi'u nodi. Nid yw'r cynigion yn dileu mynediad at driniaeth, yn cyflwyno cyfyngiadau newydd sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, yn newid trothwyon gwneud penderfyniadau clinigol, nac yn lleihau argaeledd neu ansawdd gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn eithrio'r cyfyngiadau presennol sy'n ymwneud ag analogau hormonau rhyddhau gonadotropin (GnRH) ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n parhau i fod y tu allan i gwmpas y cynigion.

Am nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol wedi'u nodi, ystyrir nad oes angen unrhyw fesurau lliniaru penodol. Fodd bynnag, bydd canllawiau clinigol presennol, trefniadau llywodraethu rhagnodi, prosesau optimeiddio meddyginiaethau a mecanweithiau goruchwyllo proffesiynol yn parhau i fod yn berthnasol. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn cael eu hadolygu i nodi unrhyw effeithiau sy'n benodol i blant nad ydynt efallai wedi'u nodi wrth ddatblygu polisi, a bydd unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniadau terfynol.

- Sut y mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel a amodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi chi eich hun.

Yn gyffredinol, ystyrir bod y cynigion yn gydnaws ag Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (sef yr hawl i'r safon iechyd uchaf

y gellir ei chyrraedd), am y bwriedir iddynt leihau rhwystrau gweinyddol diangen a chefnogi mynediad amserol at driniaeth glinigol briodol, tra'n cynnal mesurau diogelu clinigol presennol.

Erthyglau neu BroTOCOL Dewisol CCUHP	Yn gwella (X)	Yn Herio (X)	Eglurhad
<i>Erthygl 24 – Hawl i'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd</i>	X		Nid yw'r cynigion yn newid cymhwysedd clinigol, safonau gofal na mynediad at driniaeth i blant a phobl ifanc. Lle bo'n berthnasol, gall dileu cyfyngiadau rhagnodi neu ofynion gweinyddol gefnogi mynediad mwy amserol at driniaeth glinigol briodol. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar fynediad plant at ofal iechyd wedi'u nodi.

- Ystyriwch a yw unrhyw Hawliau ar gyfer Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

Nid oes unrhyw effeithiau penodol wedi'u nodi ar gyfer plant a phobl ifanc yr UE, yr AEE neu'r Swistir. Nid yw'r cynigion yn effeithio ar hawliau preswyllo, mynediad at ofal iechyd, addysg neu nawdd cymdeithasol, ac maent yn berthnasol yn gyfartal i bob plentyn a pherson ifanc cymwys sy'n cael mynediad at wasanaethau'r GIG yng Nghymru, waeth beth fo'u cenedligrwydd.

4. Cyngor a phenderfyniad gweinidogol

- Sut bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn llywio eich cyngor gweinidogol?

Bydd canlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) yn cael eu cynnwys yn y cyngor gweinidogol, gan roi sicrwydd bod y cynigion yn gydnaws â hawliau a llesiant plant a phobl ifanc, gan gynnwys Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (sef yr hawl i'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd). Mae'r canfyddiadau'n cefnogi bwrw ymlaen ag ymgynghori, gan sicrhau bod ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu

ar gyfer unrhyw effeithiau penodol i blant neu ganlyniadau anfwriadol cyn gwneud penderfyniadau polisi terfynol.

5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- Os ydych wedi ceisio barn plant a phobl ifanc ynglŷn â'ch cynnig, sut fyddwch yn eu hysbysu ynghylch y canlyniad?

Nid oes unrhyw ymgysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc wedi'i wneud yn ystod y gwaith o datblygu'r cynigion hyn.

6. Monitro ac Adolygu

Mae'n hanfodol ailystyried eich CRIAs i nodi a oedd yr effeithiau a nodwyd gennych yn wreiddiol wedi dwyn ffrwyth, ac a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Pan fyddwch yn bwrw ymlaen ag is-ddeddfwriaeth, ni fydd yn ddigon dibynnu ar y CRIA ar gyfer y deddfwriaeth sylfaenol; bydd angen i chi ddiweddarau'r CRIA i ystyried sut y gall manylion y cynigion yn y rheoliadau neu'r canllawiau effeithio ar blant.

Gall yr arweinydd polisi ailystyried y fersiwn o'u CRIA sydd wedi'i chyhoeddi, ei ailenwi fel adolygiad o'r CRIA gwreiddiol, a diweddarau'r dystiolaeth o effaith. Dylid cyflwyno'r asesiad o effaith a adolygwyd i Weinidogion gydag unrhyw gynigion i ddiwygio'r polisi, yr ymarfer neu'r canllawiau. Dylid cyhoeddi'r adolygiad hwn o'r CRIA hefyd.

- Amlinellwch y mecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Bydd effaith y diwygiadau arfaethedig ar blant a phobl ifanc yn cael ei monitro trwy drefniadau llywodraethu a monitro presennol GIG Cymru. Bydd hyn yn cynnwys adolygu data rhagnodi, adborth ar weithredu gan fyrdau iechyd a rhanddeiliaid proffesiynol, ac ystyried unrhyw faterion penodol i blant a godwyd trwy'r broses ymgynghori cyhoeddus. Rhoddir sylw arbennig i feddyginiaethau a allai fod yn berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys clobazam a chyffuriau gwrthfeiol ar gyfer y fflw, a hynny i nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o ddileu cyfyngiadau rhagnodi neu ofynion gweinyddol.

Bydd y CRIA yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses datblygu polisi ar ôl yr ymgynghoriad a chyn unrhyw benderfyniad terfynol ar ddiwygiadau deddfwriaethol. Pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu, bydd y CRIA yn cael ei ailystyried fel rhan o unrhyw adolygiad ôl-weithredu i asesu a yw'r effeithiau

disgwyliedig ar blant a phobl ifanc wedi digwydd ac a oes unrhyw effeithiau annisgwyl wedi dod i'r amlwg.

- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes unrhyw ddiwygiadau'n ofynnol i'r polisi neu'r modd y caiff ei roi ar waith?

Ar hyn o bryd, ni nodwyd oes unrhyw ddiwygiadau i'r polisi na'i weithrediad fel rhai angenrheidiol o ganlyniad i'r CRIA. Mae'r asesiad wedi dod i'r casgliad bod y cynigion yn debygol o gael effeithiau cyfyngedig sy'n gadarnhaol neu'n niwtral yn bennaf ar blant a phobl ifanc, ac nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar fynediad at driniaeth, meini prawf cymhwysedd clinigol, safonau gofal neu fesurau diogelu presennol.

Fodd bynnag, bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad ac unrhyw fonitro dilynol yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniadau terfynol. Os bydd tystiolaeth yn dod i'r amlwg o effeithiau anfwriadol ar blant a phobl ifanc, bydd swyddogion yn ystyried a oes angen diwygiadau i'r polisi, y dull gweithredu, y canllawiau neu'r trefniadau monitro er mwyn lliniaru'r effeithiau hynny. Ar hyn o bryd, nid oes angen unrhyw ddiwygiadau o'r fath.